Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Talgarreg

**Talgarreg
Llandysul
Ceredigion
SA44 4ER**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Talgarreg

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Talgarreg |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ceredigion |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 36 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 32 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 5.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 18.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 81.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2020 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 04/03/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Talgarreg yn ysgol hynod groesawgar a chyfeillgar sy'n  anelu at sicrhau'r profiadau dysgu a'r lles gorau ar gyfer pob disgybl. Mae balchder disgyblion yn eu hysgol yn nodwedd gref. Maent yn siarad yn fyrlymus am eu profiadau ac yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a gânt. Bron heb eithriad, mae disgyblion yn gwrtais ac yn ymdrin â'i gilydd ac oedolion gyda pharch. Mae'r ysgol yn hyrwyddo diwylliant diogelu yn llwyddiannus ac mae disgyblion yn teimlo'n hapus a diogel yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau iaith a digidol o'u mannau cychwyn, ac maent yn cymhwyso'r medrau hyn yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm. Ar y cyfan, mae disgyblion yn gwneud cynnydd priodol wrth ddatblygu eu medrau rhif. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd iddynt gymhwyso eu medrau rhifedd yn llawn mewn cyd-destunau dysgu amrywiol.

Mae athrawon yn darparu cwricwlwm ysgogol a chytbwys. Maent yn cynllunio profiadau dysgu sy'n adlewyrchu hanes a thraddodiadau lleol yn dda. Mae disgyblion yn cyfrannu'n effeithiol at gynnwys y cwricwlwm ac, o ganlyniad, maent yn ymroddgar a brwdfrydig at eu dysgu. Mae staff yn sefydlu perthynas weithio gynhyrchiol â'r disgyblion ac yn ennyn eu diddordeb mewn profiadau dysgu yn llwyddiannus. Mae athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu yn bwrpasol. Maent yn holi disgyblion yn dreiddgar ac yn cyfathrebu â nhw gan ddefnyddio Cymraeg graenus. Mae adborth gan athrawon yn cefnogi disgyblion i adnabod beth maent wedi ei wneud yn dda. Er hyn, nid ydynt yn darparu cyfleoedd digon cyson i ddisgyblion ymateb i adborth a gwneud gwelliannau i'w gwaith.

Mae'r pennaeth yn arweinydd angerddol sy'n gweithio'n ddiwyd dros yr ysgol. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel o'i hunan ac eraill ac yn ymroi i sicrhau'r gorau i'r disgyblion. Caiff ei chefnogi gan dîm bach o staff sy'n weithgar ac yn cydweithio'n effeithiol i ddiwallu anghenion disgyblion. Mae'r llywodraethwyr yn eiriolwyr cadarn dros yr ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gynhwysfawr o'u cyfrifoldebau ac yn adnabod cryfderau'r ysgol a'i meysydd  i'w gwella yn dda. Maent yn darparu cefnogaeth gref i staff ac yn sicrhau bod yr ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'i hadnoddau.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod athrawon yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ymateb i adborth er mwyn gwella eu gwaith

A2 Gwella cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd mewn cyd-desunau dysgu amrywiol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cadarn o’u mannau cychwyn. Maent yn datblygu eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth yn effeithiol mewn cyd-destunau diddorol sy’n eu hannog i fwynhau dysgu.

Mae medrau gwrando y rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu’n dda. Maent yn gwrando’n astud ar oedolion a’u cyfoedion ac yn dilyn cyfarwyddiadau’n dda. Mae medrau llafar Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn hynod effeithiol ar draws yr ysgol. Mae’r disgyblion ieuengaf yn trafod eu tasgau a mynegi eu syniadau yn fyrlymus ac yn llawn chwilfrydedd. Wrth iddynt symud drwy’r ysgol, mae geirfa’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n gelfydd. Maent yn ymateb yn hyderus i gwestiynau heriol ac yn trafod nodweddion eu gwaith ysgrifennu creadigol yn aeddfed.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen dros amser. Maent yn dangos brwdfrydedd at ddarllen ac yn mwynhau trin a thrafod testunau amrywiol. Erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 2, mae’r rhan fwyaf yn darllen ystod o destunau gyda chywirdeb cynyddol. Maent yn gwneud defnydd da o atalnodi wrth ddarllen ar goedd er mwyn cyfleu ystyr. Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion hynaf yn darllen ystod o destunau’n rhugl yn y ddwy iaith. Maent yn trafod cynnwys llyfrau yn aeddfed gan egluro pa awduron sy’n apelio atynt ac yn eu denu i fwynhau darllen.

Mae medrau ysgrifennu y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n gadarn ar draws yr ysgol. Mae’r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau ysgrifennu cynnar yn effeithiol ac yn arbrofi wrth greu marciau, er enghraifft wrth ddefnyddio sialc a phinau ysgrifennu yn yr ardal asiantaeth gwyliau. Erbyn Blwyddyn 2, mae’r rhan fwyaf yn adeiladu brawddegau syml gan ddefnyddio ansoddeiriau pwrpasol i ddisgrifio ffrwythau iachus. Maent yn adeiladu ar y medrau hyn yn llwyddiannus yn y ddwy iaith wrth symud drwy’r ysgol. Erbyn Blwyddyn 4, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos gafael cadarn ar batrymau sillafu cyfarwydd, ac yn defnyddio ystod briodol o gymariaethau i gyfoethogi eu gwaith yn llwyddiannus , er enghraifft wrth ysgrifennu darn disgrifiadol am y cadno a’r dylluan. Erbyn Blwyddyn 6, mae’r rhan fwyaf yn ysgrifennu’n fwyfwy estynedig gan wneud dewisiadau dychmygus o ystod eang o eirfa i ennyn diddordeb y darllenydd.

Mae medrau mathemateg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n addas. Mae’r disgyblion ieuengaf yn caffael medrau pwysig wrth gyfnewid darnau arian yn y siop laeth, er enghraifft. Wrth iddynt symud drwy’r ysgol, maent yn adeiladu ar eu medrau’n gyson. Mae’r disgyblion hynaf yn lluosi rhifau 3-digid gan ddefnyddio

dulliau priodol yn llwyddiannus. Mae disgyblion yn defnyddio eu medrau rhif yn briodol ar draws ystod gyfyng o gyd-destunau. Er hyn, nid yw disgyblion yn cymhwyso’r ystod lawn o fedrau rhifedd mewn meysydd ar draws y cwricwlwm, sydd yn ei dro yn arafu eu cynnydd.

Dros amser, mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n dda. Mae’r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau codio’n llwyddiannus ac yn mwynhau rhaglennu’r crwydryn i ddilyn llwybr penodol ar y llawr. Mae‘r disgyblion hynaf yn defnyddio pecynnau amlgyfrwng yn fedrus, er enghraifft wrth gyflwyno gwybodaeth am amrywiaeth o draddodiadau noson calan o amgylch y byd. Maent yn datblygu eu medrau creadigol yn llwyddiannus wrth ddefnyddio rhaglenni i greu animeiddiadau difyr o daith y barcud coch er mwyn ei gynnwys ym mherfformiad y sioe Nadolig.

Mae medrau creadigol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n effeithiol, ac yn nodwedd gref o'r ysgol. Mae eu darluniau lliwgar a dychmygus yn cael eu harddangos yn chwaethus ar furiau’r ysgol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canu’n hyderus gydag ymwybyddiaeth gadarn o draw a thôn. Mae hyder a chreadigrwydd bron bob disgybl yn datblygu’n gadarn drwy gynllunio, cyfansoddi a pherfformio'r sioe Nadolig a chymryd rhan yn y caneuon actol, er enghraifft.

Mae bron bob disgybl ar draws yr ysgol yn datblygu eu medrau corfforol yn dda. Maent yn rhyngweithio’n effeithiol wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau sy’n hybu eu hiechyd a’u lles yn llwyddiannus ac yn parchu rheolau gweithgareddau yn briodol.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Bron yn ddieithriad, mae disgyblion yn gwrtais a chyfeillgar ac yn hynod falch o’u hysgol. Maent yn hwyliog a brwdfrydig am eu profiadau a’u gweithgareddau ac yn estyn croeso cynnes iawn i ymwelwyr. Maent yn mwynhau dod i’r ysgol ac yn teimlo’n hapus a diogel o fewn yr amgylchedd cynhwysol a chlud. Mae disgyblion a’u rhieni yn gwerthfawrogi’r gofal y mae staff yn ei ddarparu ac yn teimlo bod yr ysgol yn gwrando ar eu barn ac yn ystyried a gweithredu’n gyson ar eu hadborth, lle bo’n briodol. Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda ymhob agwedd o fywyd yr ysgol.

Mae agweddau’r  rhan fwyaf o ddisgyblion at eu dysgu yn dda. Mae ganddynt frwdfrydedd cynhenid at eu gweithgareddau ac maent yn croesawu profiadau a heriau newydd. Mae’r rhan fwyaf yn cydweithio’n dda mewn parau a grwpiau. Maent yn dangos gwydnwch a dyfalbarhad wrth ddatrys problemau ac yn canolbwyntio ar eu tasgau am gyfnodau estynedig. Pan gânt y cyfle, mae disgyblion yn ymateb a gweithredu’n briodol i adborth staff ac yn gwneud gwelliannau gwerthfawr i’w gwaith.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymfalchïo wrth ymgymryd â chyfrifoldebau yn yr ysgol. Maent yn diwallu eu rolau yn egnïol ac yn hynod ymroddgar. Er enghraifft, mae’r Dewiniaid Darllen yn gweithio’n ddiwyd i lunio cytundeb darllen effeithiol rhwng yr ysgol, y disgyblion a’r rhieni. Mae hyn yn sbarduno agweddau cadarnhaol ac yn hybu’r cymhelliant i ddarllen, yn enwedig ymysg y disgyblion sy’n dueddol o fod yn anfoddog i ddarllen. Mae’r cyngor ysgol yn trefnu gweithgareddau gwerthfawr wrth gymryd rhan mewn diwrnodau penodol, er enghraifft wrth godi ymwybyddiaeth eu cyfoedion am effaith niweidiol cam-drin geiriau a sut i ymateb mewn sefyllfa o fwlio honedig. Mae’r Pwyllgor Eco yn hybu cynaliadwyedd trwy annog eu cyfoedion i ailgylchu a phwysleisio’r angen i arbed ynni. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn

gwerthfawrogi cyfleoedd rheolaidd i leisio eu barn am yr hyn y maent am ei ddysgu, er enghraifft wrth drafod y sbardun i awgrymu syniadau er mwyn dylanwadu'n fwriadus ar eu gwaith thema.

Un o nodweddion cryfaf yr ysgol yw'r modd y mae disgyblion yn cefnogi eu cymuned a'i thrigolion. Mae ganddynt synnwyr cryf o berthyn i'w milltir sgwâr ac yn angerddol dros yr ardal a'i hanes cyfoethog. Mae disgyblion yn trefnu gweithgareddau gwerthfawr er mwyn codi arian ar gyfer helpu eraill y tu hwnt i'w milltir sgwâr, er enghraifft wrth goginio cacennau ar gyfer eu gwerthu er budd elusennau gwahanol. O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth gadarn o'u cyfrifoldeb i fod yn ddinasyddion moesegol ac egwyddorol.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gref o sut i gadw'n ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd. Er enghraifft, maent yn dangos ymwybyddiaeth aeddfed o sut i ymateb petai dieithryn yn cysylltu â nhw dros gyfryngau digidol a'r angen i gadw eu cyfrineiriau'n ddiogel. Mae'r Dewiniaid Digidol yn ymgyrchu'n gyson i atgyfnerthu'r agwedd hon ac yn rhannu negeseuon pwysig â'u cyfoedion i'w hatgoffa am bwysigrwydd bod yn wyliadwrus wrth ddysgu ar-lein.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfrannu'n ymroddgar yn ystod gweithgareddau corfforol ac mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o effaith ymarfer corff ar eu hiechyd. Maent yn mwynhau cynrychioli'r ysgol mewn cystadlaethau chwaraeon amrywiol fel pêl-droed a rhedeg traws gwlad. Mae'r rhan fwyaf yn dangos dealltwriaeth briodol o bwysigrwydd bwyta'n iach ac yn mwynhau ymgymryd ag ymgyrchoedd cyfoes sy'n hybu bwyta'n iach, er enghraifft 'Bwytewch y llysiau i'w llethu'.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae staff wedi sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sy'n seiliedig ar ddarparu profiadau dysgu sy'n berthnasol i hoffterau'r disgyblion, yn ennyn eu diddordeb ac yn cynnig cyfleoedd i bawb lwyddo. Mae staff yn cydweithio'n bwrpasol â rhieni a disgyblion i ddatblygu cwricwlwm ysgogol a chytbwys sy'n diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddiannus. Un o gryfderau'r ddarpariaeth yw'r sylw a roddir i gyd-destun yr ardal leol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn cymryd perchnogaeth o'r cwricwlwm, ac yn ymateb yn frwdfrydig ac ymroddgar i'w profiadau dysgu.

Mae athrawon yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn adeiladu ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau disgyblion yn briodol. Maent yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu profiadau hwyliog trwy gyflwyno themâu ysgol gyfan. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a digidol disgyblion wedi ei chynllunio'n addas ac yn cynnwys cyfleoedd pwrpasol iddynt gymhwyso eu medrau mewn cyd-destunau amrywiol. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn defnyddio pecyn digidol i lunio poster i hysbysebu noson bingo sy'n codi elw ar gyfer gwneud gwelliannau amgylcheddol i safle'r ysgol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau mathemateg disgyblion yn dda. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd yn llawn ar draws y cwricwlwm.

Mae staff yn darparu amgylchedd ddysgu ddiddorol, lliwgar a deniadol yn ardaloedd tu fewn a thu allan i'r ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau llafar wrth ystyried ble fydden nhw'n mynd ar eu gwyliau yn ardal y siop deithio, er enghraifft. Mae'r disgyblion hynaf yn myfyrio ar eu dysgu a'u lles emosiynol yn yr

Hafan Heddwch, ac yn datblygu eu medrau corfforol trwy arbrofi ag offer pwrpasol ar y buarth.

Mae staff yn gwneud defnydd effeithiol o ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Er enghraifft, mae'r RNLI yn ymweld i drafod diogelwch ar lan y môr. Mae ymweliadau oddi ar y safle yn cryfhau'r ddarpariaeth yn bwrpasol. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn datblygu medrau codio gwerthfawr wrth fynychu gweithdy robotiaid yn Aberystwyth.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn darparu cyfleoedd priodol i ddatblygu a hybu dealltwriaeth disgyblion o egwyddorion a gwerthoedd fel cydraddoldeb a chynhwysiant. Er enghraifft, mae disgyblion yn trafod bywyd a hanes Martin Luther King a'i ddyheadau i sicrhau tegwch ymysg cyd-ddyn. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos empathi at yr heriau a'r anawsterau y mae eraill yn eu hwynebu'n ddyddiol.

Ar y cyfan, mae athrawon a chymorthyddion yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu sy'n hybu'r dysgu'n bwrpasol. Mae ganddynt berthynas weithio gynhyrchiol a chefnogol â'r disgyblion ac yn dyheu fod pob disgybl yn cael y cyfle i lwyddo hyd eithaf eu gallu. Mae staff yn sefydlu awyrgylch weithio briodol ac yn hybu ymddygiadau dysgu cadarnhaol yn llwyddiannus. Mae amcanion clir i'r dysgu ac mae cyflymder cyflwyniadau athrawon yn addas. Maent yn defnyddio dulliau holi effeithiol sy'n adalw dysgu blaenorol ac yn cadarnhau dealltwriaeth disgyblion yn dda. Mae athrawon yn darparu adnoddau effeithiol ar gyfer cefnogi'r dysgu ac yn modelu dulliau pwrpasol ar gyfer datrys problemau. Mae athrawon yn cynnig adborth cyson i ddisgyblion am eu gwaith ac, o ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o'r hyn y maent wedi ei wneud yn dda. Ar y cyfan, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ymateb i adborth a gwneud gwelliannau i'w gwaith.

Mae arweinwyr yn monitro ac olrhain cynnydd disgyblion yn ofalus. Maent yn defnyddio'r wybodaeth er mwyn cynnal trafodaethau proffesiynol gwerthfawr ymysg staff. Defnyddir y wybodaeth yn bwrpasol ganddynt er mwyn ymateb i anghenion penodol disgyblion a chynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu yn briodol. Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn rhannu gwybodaeth ddefnyddiol yn ymwneud â lles, cynnydd a safonau disgyblion.

### Gofal, cymorth ac arweiniad

Un o brif gryfderau'r ysgol yw'r gofal, cymorth ac arweiniad a ddarperir i ddisgyblion. Mae'r ysgol yn gymuned weithgar, hapus a chynhwysol ble mae ymdeimlad cryf bod pob disgybl yn aelod o deulu mawr, clòs. Mae perthynas waith bwrpasol rhwng staff a disgyblion sy'n annog pob disgybl i wneud eu gorau glas ymhob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae adnabyddiaeth y staff o'r disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach yn gynhwysfawr a defnyddir y wybodaeth hon i ddarparu cefnogaeth gadarn i ddisgyblion er mwyn diwallu eu hanghenion dysgu a lles. Mae rhieni'n hynod werthfawrogol o'r gefnogaeth a ddarperir ar gyfer eu plant.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi disgyblion gydag ADY yn gryf. O ganlyniad, mae bron bob disgybl sydd angen cefnogaeth ychwanegol yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Mae arweinwyr wedi sefydlu trefniadau effeithiol ar gyfer monitro ac olrhain lles a chynnydd disgyblion. O ganlyniad, maent yn adnabod disgyblion

sydd angen cefnogaeth ychwanegol yn gynnar. Maent yn darparu rhaglenni cefnogi priodol sy’n diwallu anghenion disgyblion unigol yn llwyddiannus. Mae’r rhaglenni cefnogi yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ynghyd â hybu eu lles emosiynol. Mae arweinwyr wedi sefydlu partneriaethau cynhyrchiol â rhieni. Mae rhieni a disgyblion yn rhan bwysig o’r trefniadau ar gyfer adolygu cynnydd disgyblion ac adnabod y camau nesaf yn eu dysgu. Mae’r ysgol yn cydweithio ag asiantaethau allanol yn effeithiol, er enghraifft y therapydd iaith a lleferydd arbenigol, er mwyn cefnogi datblygiad medrau iaith disgyblion. Mae perthynas agos rhwng yr ysgol a’r ddarpariaeth cyn ysgol sydd wedi ei lleoli’n gyfagos. Mae hyn yn eu galluogi i rannu gwybodaeth bwysig am ddiddordebau ac anghenion disgyblion cyn iddynt gychwyn yn yr ysgol. Mae hyn yn cefnogi staff i roi trefniadau ar waith a pharatoi’n amserol er mwyn diwallu anghenion disgyblion unigol.

Mae’r ysgol yn darparu ystod dda o weithgareddau a phrofiadau sy’n hybu lles emosiynol ac iechyd corfforol disgyblion yn llwyddiannus. Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn cystadlaethau pêl-droed a rhedeg traws gwlad ac wedi bod yn llwyddiannus yn genedlaethol. Trwy gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn, mae disgyblion yn atgyfnerthu medrau pwysig fel cyd-chwarae, parch at reolau a dyfalbarhad. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn elwa o gyfleoedd i uniaethu â byd natur a mwynhau bod yn yr awyr iach wrth iddynt blannu a gofalu am y llysiau yng ngardd yr ysgol, er enghraifft.

Mae’r ysgol yn darparu ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion arwain ar agweddau pwysig o weithgarwch yr ysgol. Mae disgyblion yn ymateb yn hynod gadarnhaol ac yn diwallu eu cyfrifoldebau gyda balchder ac aeddfedrwydd. Mae’r llysgenhadon chwaraeon, er enghraifft, yn arwain y disgyblion ieuengaf yn ystod sesiynau ymarfer corff. O ganlyniad, maent yn datblygu medrau trefnu a chyfathrebu gwerthfawr.

Trefnir ystod eang o gyfleoedd diddorol i ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o’u treftadaeth a’u hunaniaeth. Mae’r ysgol yn ganolbwynt gwirioneddol yn y gymuned ac mae’n manteisio’n llawn ar gyfleoedd i gynnwys y gymuned yn ei gweithgareddau. Er enghraifft, mae disgyblion yn cynllunio’r sioeau Nadolig blynyddol sy’n aml yn cynnwys cymeriadau a thirnodau adnabyddus o’r gymuned fel rhan annatod o’r sgript a’r perfformiad. O ganlyniad, mae’r disgyblion yn dod yn gynyddol ymwybodol a gwybodus am eu hardal leol ac yn ymfalchïo yn ei thraddodiadau a’i chyfoeth hanesyddol.

Wrth hyrwyddo datblygiad diwylliannol disgyblion, mae athrawon yn darparu amrywiaeth o brofiadau gwerthfawr a chyfleoedd pwrpasol iddynt ddathlu eu diwylliant Cymreig. Er enghraifft, mae disgyblion yn cystadlu yn eisteddfod yr ysgol, yr eisteddfod leol ac Eisteddfod yr Urdd. Mae disgyblion yn mwynhau’r profiadau ac yn datblygu eu hyder i berfformio ynghyd â chariad at eu cenedl a’u diwylliant.

Mae’r ysgol yn gwahodd ystod o ymwelwyr diddorol i’r ysgol gan gynnwys actorion, beirdd, artistiaid lleol a chantorion enwog. Fel rhan o’r ymweliadau, er enghraifft, mae’r disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i holi’r ymwelwyr am eu bywyd a’u gwaith. Mae’r ymweliadau hyn yn codi dyheadau disgyblion ac yn eu cefnogi i ddatblygu gwerthoedd pwysig fel gwydnwch ac ymroddiad.

Mae cyfnodau cyd-addoli'n darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau moesol ac ysbrydol yn effeithiol. Mae'r cyfnodau hyn yn annog disgyblion i fyfyrio'n dawel ac i werthfawrogi eu teuluoedd a'u ffrindiau, er enghraifft. Maent yn hybu'r disgyblion i ddangos empathi at eraill sydd yn wynebu her ac anawsterau yn ddyddiol.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer hybu presenoldeb a phrydlondeb disgyblion i'r ysgol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod diwylliant cryf o ddiogelu yn treiddio trwy'r ysgol. O ganlyniad, mae gan staff ddealltwriaeth gadarn o weithdrefnau a phrosesau amddiffyn plant ac yn ymroddi'n llwyr i sicrhau bod pob disgybl yn ddiogel yn yr ysgol. Mae trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae'r pennaeth yn arweinydd hynod angerddol. Mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sy'n seiliedig ar sicrhau bod bob disgybl yn derbyn profiadau cyfoethog mewn amgylchedd cartrefol, Cymreig a chynhwysol. Mae'r pennaeth wedi rhannu'r weledigaeth hon gyda disgyblion, staff, rhieni a'r gymuned ehangach yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae ymdeimlad cryf yr ysgol o berthyn i deulu mawr sy'n cydweithio i wireddu dyhead yr ysgol i fod yn 'Llywio'r Ffordd at Ddyfodol Disglair' yn gwbl amlwg.

Un o gryfderau nodedig yr ysgol yw'r flaenoriaeth a roddir gan arweinwyr i ddatblygu medrau Cymraeg y disgyblion a dwysáu eu gwerthfawrogiad o ddiwylliant Cymreig. O ganlyniad, mae disgyblion yn falch iawn o siarad Cymraeg ac yn ymfalchïo'n llwyr yn eu hetifeddiaeth a'u treftadaeth. Mae arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelu yn effeithiol. Yn sgil hyn, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus wrth eu dysgu a'u chwarae.

Mae'r pennaeth yn cael ei chefnogi gan dîm bach o staff sy'n cydweithio'n ddiwyd dros y disgyblion ac mae ganddi ddisgwyliadau uchel o'i hunan ac eraill. O ganlyniad, mae staff yn ymroddgar ac yn arddel gwerthoedd ac ymddygiad proffesiynol sy'n cyfrannu'n gadarn at ddatblygu lles a medrau disgyblion. Mae staff yn deall eu cyfrifoldebau yn dda ac yn eu diwallu'n gydwybodol. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli perfformiad staff yn drylwyr ac mae cyswllt clir rhwng eu targedau datblygu a blaenoriaethau gwella'r ysgol. Cefnogir hyn gan gyfleoedd dysgu proffesiynol priodol ar gyfer pob aelod o staff yn fewnol a thu hwnt i'r ysgol. Er enghraifft, mae staff yn cydweithio'n agos a chyson ag ysgolion lleol er mwyn gwerthuso a rhannu arferion da.

Mae'r trefniadau ar gyfer monitro a gwerthuso gwaith yr ysgol yn drylwyr. Mae arweinwyr, staff a disgyblion yn defnyddio ystod dda o dystiolaeth uniongyrchol yn effeithiol i gynllunio camau datblygu'r ysgol. Er enghraifft, maent yn arsylwi ar sesiynau dysgu ac yn canfod barn rhieni trwy holiaduron. Maent yn dadansoddi'r dystiolaeth yn ofalus ac, o ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Maent yn mynd ati i lunio cynlluniau gwella sydd yn rhoi sylw da i'r meysydd datblygu ynghyd â blaenoriaethau gwella cenedlaethol. Mae disgyblion yn rhan bwysig o brosesau hunanwella'r ysgol. Er enghraifft, yn dilyn gwerthusiad o'r amgylchedd dysgu, mae disgyblion wedi sefydlu llecynnau darllen tawel sy'n hybu mwynhad a brwdfrydedd y disgyblion mewn darllen yn llwyddiannus.

Mae’r pennaeth yn cael ei chefnogi gan lywodraethwyr gwybodus a brwdfrydig. Maent yn adnabod yr ysgol a’i chymuned yn dda ac yn cefnogi’r ysgol yn ddiffuant ac ymroddgar. Mae llywodraethwyr yn cyfrannu’n werthfawr at werthuso gwaith yr ysgol trwy ystod dda o weithgareddau monitro. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gryfderau a blaenoriaethau gwella’r ysgol. Maent yn defnyddio’r wybodaeth yn bwrpasol er mwyn dwyn yr ysgol i gyfrif ynghylch lles, cynnydd a safonau disgyblion.

Mae arweinwyr yn rheoli cyllid ac yn monitro cynlluniau gwariant a’u heffaith yn drylwyr. Mae’r gwariant yn cysylltu’n glir â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae arweinwyr yn defnyddio’r grant datblygu disgyblion yn ofalus er mwyn darparu rhaglenni sy’n cefnogi datblygiad medrau emosiynol, llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae llywodraethwyr yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Er enghraifft, maent yn annog disgyblion i ddod â ffrwythau a photel ddŵr i’r ysgol yn ddyddiol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr ysgol yn adeiladu partneriaethau gwerthfawr â rhieni a’r gymuned ehangach. Mae hyn yn gryfder ac yn cael effaith gadarnhaol ar y disgyblion a’u teuluoedd. Er enghraifft, mae’r ysgol yn croesawu rhieni a gofalwyr i nosweithiau cwricwlaidd sy’n gyfle i rannu gwybodaeth bwysig am strategaethau darllen er mwyn hybu a chefnogi eu gallu i helpu eu plant adref. Mae’r ysgol yn elwa o gydweithio gwerthfawr â’r gymdeithas rhieni a’r gymuned leol. Mae’r cydweithio gwerthfawr hwn yn cyfrannu'n sylweddol at yr ethos cynnes a chroesawgar sy’n nodwedd gref o’r ysgol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 09/05/2024